## ATODLEN 6

### Penodi llywodraethwyr cynrychiadol

**1.**—(1) Mewn perthynas ag ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty, rhaid i'r awdurdod lleol ddynodi fel y corff priodol—

(a) un bwrdd iechyd lleol y cysylltir yr ysgol agosaf ag ef neu ragor nag un bwrdd iechyd lleol y cysylltir yr ysgol agosaf â hwy i weithredu ar y cyd; neu

(b) yr ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y cysylltir yr ysgol agosaf â hi;

a rhaid i'r corff priodol benodi llywodraethwr cynrychiadol i gymryd lle un o'r nifer o lywodraethwyr cymunedol a benodir yn unol â rheoliad 26.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon ystyr "ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service trust*") yw corff a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006([1]).

([1]) 2006 p.42.